
Ministry of Defence

# Gwneud Busnes â’r Weinyddiaeth Amddiffyn

## Cyfleoedd ac Arloesi yn y Gadwyn Gyflenwi Amddiffyn



Mai 2023

# Manylion cyswllt

- Os ydych chi'n cysylltu â ni am y tro cyntaf, anfonwch e-bost at: dbscs-ecfinanceteam@mod.gov.uk
- Os ydych chi eisoes wedi cysylltu â ni dros e-bost, defnyddiwch: DefComrclSSM-Suppliers@mod.gov.uk
- Porth Cyrchu Amddiffyn; Y platfform eGyrchu a siop un stop ar gyfer cyfleoedd contractio, tendro a gwybodaeth am wneud busnes â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rheoli Cyflenwyr Strategol | Gwneud Busnes â'r Tîm Amddiffyn

Spruce 3b, #1301, MOD Abbey Wood, Bryste, BS34 8JH

# Cynnwys

Pwy ydym ni ........ 3
Sut rydym yn caffael ........ 3
Y meysydd rydym yn gweithio ynddynt ........ 4
Pam dewis ni ........ 5
Cynllun Gweithredu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig ........ 6
Cyfleoedd i Fusnesau ........ 7
Porth Cyrchu Amddiffyn (DSP) ........ 7
Dod o hyd i Gontractau ........ 8
Gwasanaeth Canfod Tendr ........ 8
Gwasanaeth Masnachol y Goron ........ 8
Sianeli Caffael ........ 9
Hoffech chi wybod mwy? ........ 10
Arloesi yn y Gadwyn Gyflenwi Amddiffyn ........ 11
Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall ........ 13
Atodiad - Cyflenwyr Mawr ........ 15



# Pwy ydym ni

Ni yw un o’r sefydliadau caffael cyhoeddus mwyaf yn Ewrop, a’r cwsmer unigol mwyaf ar gyfer diwydiannau yn y DU. Dros y degawd nesaf, rydym wedi ymrwymo i wario dros £190 biliwn ar gyfarpar a chymorth. Mae gennym amrywiaeth eang o ofynion, sy’n cynnwys popeth o gerbydau ymladd milwrol i wasanaethau addysg, ac o longau tanfor niwclear i reoli cyfleusterau. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys ein Lluoedd Arfog ac asiantaethau diogelwch gwladol.

Ein nod yw darparu'r galluoedd gorau i’n cwsmeriaid er mwyn iddynt allu amddiffyn diogelwch y DU a hybu buddiannau’r DU, nawr ac yn y tymor hir. Rydym yn awyddus i annog arloesi a chyfranogiad ehangach gan fusnesau bach a chanolig ledled ein cadwyn gyflenwi a byddwn yn parhau i ddilyn polisïau ac arferion sy’n ei gwneud yn haws i fusnesau newydd a busnesau llai ganfod cyfleoedd gyda’r Weinyddiaeth Amddiffyn, cystadlu amdanynt a’u hennill. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth o sylfaen ddiwydiannol lewyrchus, gynaliadwy a chystadleuol yn y DU, gan sicrhau’r gwerth gorau posibl am arian i’r trethdalwr ar yr un pryd.






# Sut rydym yn caffael

Fel sefydliad sector cyhoeddus, rydym yn caffael mewn ffordd wahanol i ddiwydiant, gan ddefnyddio cystadleuaeth pan fo hynny’n briodol. Rydym yn pennu meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis tendrau, rydym yn deg ac yn dryloyw a byddwn yn cael ein dal yn atebol am benderfyniadau caffael mewn ffordd nad yw’r sector preifat yn ei wneud. Nid ydym yn defnyddio rhestrau o gyflenwyr sy’n cael eu ffafrio.

Mae ein hegwyddorion yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder (gweithredu mewn ffordd deg ac anwahaniaethol) a chydnabyddiaeth gilyddol (o ddogfennau a safonau cyfatebol).

# Y meysydd rydym yn gweithio ynddynt







***Technoleg*: digidol ac yn y cwmwl, gwasanaethau rhwydwaith, meddalwedd a chynnyrch a gwasanaethau technoleg**

***Cyfarpar a Chymorth*: llongau, llongau tanfor, awyrennau, cerbydau, arfau, taflegrau, cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar**

***Seilwaith*: Adeiladu, rheoli cyfleusterau caled a meddal, a gwasanaethau ymgynghori eiddo**

- Mae **Defence Digital (DD)** yn gyfrifol am sicrhau bod technoleg ddigidol a gwybodaeth effeithiol yn cael ei rhoi yn nwylo'r lluoedd arfog a busnes rheng flaen. Maent yn arwain ar strategaeth seiber amddiffynnol, datblygu gallu a pholisi, ar yr un pryd â chyflenwi TG i 200,000 o ddefnyddwyr i dros 2000 o safleoedd amddiffyn ar draws y DU a ledled y byd.

- **Cymorth a Chyfarpar Amddiffyn (DE&S)** Mae DE&S yn rheoli amrywiaeth eang o brosiectau cymhleth i brynu, cefnogi a chyflenwi cyfarpar a gwasanaethau hanfodol y mae'r Llynges Frenhinol, Byddin Prydain a'r Awyrlu Brenhinol eu hangen i weithredu'n effeithiol. Mae'r rhaglen waith yn amrywio o awyrennau jet a llongau rhyfel i gerbydau arfog a cheginau maes.

- Y **Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO)** yw'r arbenigwr ystadau ar gyfer amddiffyn. Mae'n cynorthwyo'r lluoedd arfog i alluogi gallu milwrol drwy gynllunio, adeiladu, cynnal a chadw a gwasanaethu seilwaith.

- **Asiantaeth Weithredol yw'r Asiantaeth Cyflenwi Llongau Tanfor (SDA)** sy'n rheoli'r gwaith o gaffael llongau tanfor niwclear y DU, eu cefnogi tra byddant mewn gwasanaeth a'u gwaredu, sef rhai o'r cyfarpar mwyaf cymhleth yn y byd. Mae'r SDA yn darparu galluoedd i'r Llynges Frenhinol sy'n hanfodol ar gyfer Ataliaeth Barhaus ar y Môr (CASD), sef conglfaen ein diogelwch gwladol.

- Mae **Tîm Leidos** yn darparu gwasanaethau hanfodol fel storio a dosbarthu ar gyfer nwyddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys gwasanaeth cludo nwyddau byd-eang a rheoli caffael a'r stocrestr bwyd, tanwyddau wedi'u pacio, dillad, nwyddau meddygol a chyflenwadau cyffredinol.

- Mae'r **Labordy Technoleg a Gwyddoniaeth Amddiffyn (Dstl)** yn sicrhau bod gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol yn cyfrannu at amddiffyn a diogelwch y DU. Mae DSTL yn cyflenwi gwasanaethau technoleg a gwyddoniaeth arbenigol a sensitif i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r llywodraeth yn ehangach.

Mae maint a chymhlethdod llawer o'n prosiectau yn golygu bod angen i ni weithio'n agos gyda'n prif gyflenwyr (gweler yr atodiad) i sicrhau bod y rhaglen amddiffyn yn cael ei chyflawni. Felly, mae cyfleoedd i gyflenwyr o bob maint, o gontractwyr amddiffyn mawr sefydledig i fusnesau arloesol llai, gymryd rhan yn ein gweithgarwch caffael fel prif gyflenwr ac fel is-gontractwr.

# Pam dewis ni

Rydym yn credu bod amrywiaeth ein gweithgarwch caffael ynghyd â maint ein gwariant yn gwneud amddiffyn yn faes deniadol i wneud busnes ynddo. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod maint yr adran yn gallu gwneud i ddarpar gyflenwyr deimlo'n anesmwyth, yn enwedig yng nghyswllt busnesau llai sy'n gweithio gyda ni am y tro cyntaf. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi lansio nifer o fentrau i wneud pethau'n haws i'n cyflenwyr.

Rydym yn gwario tua £20Bn y flwyddyn â diwydiant y DU.

Rydym yn ei gwneud yn haws i fusnesau llai ddod o hyd i gyfleoedd a chystadlu am gontractau drwy ein porth cyflenwyr newydd.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein harbenigedd masnachol yn barhaus ac i chwilio am atebion arloesol ar gyfer ein cwsmeriaid.


Rydym yn gwneud caffael yn y sector cyhoeddus yn symlach ac yn fwy tryloyw, e.e. drwy ddiwygio caffael a chyflwyno contractau byr mewn Saesneg syml a chlir i'w defnyddio ar gyfer caffaeliadau gwerth isel, llai cymhleth.

Rydym yn hysbysebu ein gofynion yn eang ac yn defnyddio nifer o sianeli i helpu cyflenwyr i gael mynediad at gontractau'r sector cyhoeddus.

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig

Rydym yn sylweddoli bod Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) wrth galon diwydiant amddiffyn llewyrchus a hyblyg y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod BBaCh yn wynebu heriau a rhwystrau unigryw sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial o ran darparu gallu amddiffyn a chyfrannu at ffyniant y DU. Er mwyn gwella ymgysylltiad â BBaCh, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ei hail Gynllun Gweithredu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig ar 27 Ionawr 2022.

Yn y cynllun gweithredu, rydym yn nodi sut byddwn ni'n gwella ein hymgysylltiad â BBaCh gyda'n gilydd. Rydym yn awyddus i annog timau caffael i'w gwneud yn haws i BBaCh wneud busnes ag amddiffyn, ac i sicrhau bod strategaethau masnachol yn eu galluogi i gael ystyriaeth briodol ar bob cam o'r broses gaffael


Ministry of Defence

Opportunity & Innovation:

The Defence Small and Medium-sized Enterprise (SME) Action Plan

January 2022

[Cyfleoedd ac Arloesi: Cynllun Gweithredu Amddiffyn ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig - GOV.UK (www.gov.uk)]

# Cyfleoedd i Fusnesau


Mae cyfleoedd cyffrous i sectorau newydd, anhraddodiadol a chydgyffyrddol i wneud busnes yn uniongyrchol gyda’r Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn anuniongyrchol gyda’n prif gyflenwyr ar lefel is-gontractio. Mae manylion am y rhaglenni rydym yn eu cefnogi yng [Nghynllun Cyfarpar y Weinyddiaeth Amddiffyn]; mae’r rhain yn cynnwys cyfarpar/seilwaith a'r ystad amddiffyn.

## Porth Cyrchu Amddiffyn (DSP)

Mae [Porth Cyrchu Amddiffyn (DSP)] yn blatfform eGyrchu a siop un stop ar gyfer cyfleoedd contractio, tendro a gwybodaeth am wneud busnes â’r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rydym yn hysbysebu cyfleoedd tendro a chontractio sy’n werth dros £10,000 ar y Porth. Gallwch gael mynediad i’r Porth a chofrestru ar gyfer gwneud cais am gyfleoedd gyda’r Weinyddiaeth Amddiffyn am ddim. Mae cyflenwyr hefyd yn gallu cyhoeddi eu cyfleoedd is-gontractio ar y porth. Mae'r Porth hefyd yn cynnwys cyhoeddiadau pwysig ar gyfer y diwydiant.

**Desg Gymorth ar gyfer Cyflenwyr, Newyddion y Weinyddiaeth Amddiffyn, Gwybodaeth Ddefnyddiol, Arloesi a mwy**



## Dod o hyd i Gontractau

Rydym hefyd yn hysbysebu ar borth **Contracts Finder** y Llywodraeth. Yma, mae Adrannau'r Llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus eraill yn hysbysebu cyfleoedd tendro a chontractio gwerth £10,000 ac uwch. Mae Mynediad at Contracts Finder yn rhad ac am ddim.

## Gwasanaeth Canfod Tendr

Mae gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer contractau yn y sector cyhoeddus yn y DU yn cael ei chyhoeddi ar y **Gwasanaeth Dod o Hyd i Dendr (FTS)**:

• Gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth am ddim ac mae'n disodli rôl Tenders Electronic Daily, Cyfnodolyn Swyddogol yr UE (OJEU/TED) ar gyfer caffaeliadau yn y DU.

• Mae FTS yn gweithio ochr yn ochr â phyrth caffael presennol fel Contracts Finder a Porth Cyrchu Amddiffyn (DSP), y gellir eu defnyddio i weld amrywiaeth eang o gyfleoedd i gyflenwi'r sector cyhoeddus.

Nid yw gofynion sydd â gwerth llai na £10,000 yn cael eu hysbysebu fel arfer; mae timau caffael y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal arolwg o'r farchnad ac yn dewis cyflenwyr ar sail y gwerth gorau am arian.

## Gwasanaeth Masnachol y Goron

Rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin drwy wefan **Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS)** . CCS yw'r sefydliad caffael cyhoeddus mwyaf yn y DU. Mae'n darparu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar draws y sector cyhoeddus.

Mae cytundebau masnachol CCS yn cynnwys fframweithiau, sy'n cynnwys gofynion cyffredin yn y sector cyhoeddus, rhestr o gyflenwyr sydd wedi cael eu gwerthuso fel rhai sy'n gallu cyflawni'r gofynion, a thelerau contract safonol.

Gellir rhannu fframweithiau yn lotiau yn ôl cynnyrch neu fath o wasanaeth. Gallwch gyflenwi i un neu fwy o lotiau neu i fframwaith cyfan.

Efallai y bydd gennych hefyd ddiddordeb yn ein dilyn ni ar Twitter @defenceproc, sef lle rydym yn hysbysebu Diwrnodau Ymgysylltu â'r Farchnad a chyfleoedd eraill.

## Sianeli Caffael

Mae sianeli caffael yn cael eu cyhoeddi, pan fo rhai ar gael, i roi gwybod i gyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr am gynlluniau i brynu, gan alluogi'r gadwyn gyflenwi i gynllunio ei gweithgareddau'n well a chynnig sicrwydd ynghylch pecynnau gwaith yn y dyfodol.

Defence Infrastructure Organisation

Lansiodd y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO) ei sianel caffael: https://www.gov.uk/government/publications/dio-procurement-pipeline ym mis Hydref 2020 ac mae'n rhoi gwybod i gyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr am yr hyn y mae DIO yn bwriadu ei brynu ar ran ei gwsmeriaid. Mae cyhoeddi'r sianel yn cefnogi egwyddorion masnachol y DIO i'w gwneud yn haws gwneud busnes ag ef a chreu sylfaen ehangach a mwy amrywiol o gyflenwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaCh) ac mae'n cael ei diweddaru bob chwarter.

leidos

Mae Leidos hefyd yn cyhoeddi ei sianel caffael: https://www.leidos-supply.uk/ojeu/future-opportunities sy'n cynnwys tabiau ar wahân ar gyfer cyfleoedd yn y chwe mis nesaf, ac un arall ar gyfer cyfleoedd fydd ar gael ymhellach ar ôl 6 mis.








# Hoffech chi wybod mwy?

Mae ein cynnyrch a'n gwasanaethau yn cynnwys y canlynol:

Cyfleuster Desg Gymorth (e-bost: dbscs-ecfinanceteam.mod.uk)

Bod yn bresennol mewn arddangosfeydd masnach ledled y DU, gan gynnwys rhoi cyflwyniadau ar gynnal busnes ag amddiffyn (yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill): DPRTE, DSEI, 3CDSE a Procurex)

Cynnal gweminarau ar sut mae cael mynediad at gyfleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n cael eu hysbysebu ar DSP. Mae recordiadau blaenorol ar gael ar y dudalen Procurement Hub

Darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gyflenwyr drwy DSP, GOV.UK Procurement Hub, Twitter @defenceproc a LinkedIn Defence Procurement

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi rhyddhau Canllaw Gwerthu i'r Llywodraeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig sef Selling to Government Guide for SMEs.  Mae'r canllaw yn cefnogi BBaCh sy'n awyddus i wneud cais am gontractau'r llywodraeth, gan gynnwys cyfleoedd yn y sector amddiffyn, naill ai'n uniongyrchol, neu yn y gadwyn gyflenwi. Mae hefyd yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ar gyfer bidio, lle i chwilio am gyfleoedd contract a chyfeiriadau at ragor o gymorth.

Mae'r ddogfen ganllaw Knowledge in Defence (KiD) yn diffinio sut rydym yn cynnal, yn llywodraethu ac yn rheoli ein proses gaffael amddiffyn ac ynddi y ceir yr holl bolisïau a chanllawiau sy'n llywodraethu swyddogaethau masnachol a chyflawniad prosiectau amddiffyn. Mae KiD yn darparu'r wybodaeth, y canllawiau a'r cyfarwyddyd sy'n nodi sut mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal busnes caffael. Mae'n cynnwys y canlynol:

- System gaffael
- Rheoli Gallu
- Masnachol
- Peirianneg
- Cyllid
- Seilwaith
- Logisteg
- Cyflawni Prosiectau
- Diogelwch a gwarchod yr amgylchedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg
- Arweiniad i Amodau Amddiffyn
- Templedi contractio

# Arloesi yn y Gadwyn Gyflenwi Amddiffyn



Rydym yn awyddus i annog Arloesi yn ein busnes ac i ddenu cyflenwyr newydd ac anhraddodiadol i sylfaen gyflenwi amddiffyn, yn uniongyrchol gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a chyda'n prif gyflenwyr. Mae ein cwsmeriaid wedi rhoi Arloesi yn uchel ar eu hagenda ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu gofynion yn y dyfodol. Mae technoleg yn creu bygythiadau a chyfleoedd i ddiogelwch a ffyniant y DU, ac mae Arloesi yn hanfodol i gynnal ein mantais filwrol.

Rydym wedi sefydlu Cronfa Arloesi newydd (£800M dros 10 mlynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2016) i annog gwell cydweithrediad â diwydiant, academia a chynghreiriaid, ac i dargedu darparwyr newydd i roi hwb i fantais gystadleuol amddiffyn yn y DU a chanfod atebion i'n cwestiynau diogelwch gwladol mwyaf taer o bob sector yn gyflym. Mae nifer o sefydliadau sy'n cefnogi syniadau arloesol gan gyflenwyr, ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

*Parhau dros y dudalen:*

Defence and Security Accelerator

Innovate UK

uk defence solutions centre

### Y Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch

Mae'r Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch sy'n rhan o'r Labordy Technoleg a Gwyddoniaeth Amddiffyn (Dstl), yn canolbwyntio ar brosiectau arloesol sy'n gallu rhoi mantais i ddiogelwch gwladol ac amddiffyn er mwyn diogelu'r DU rhag ei gwrthwynebwyr. Mae'n ariannu'r gwaith o ddatblygu syniadau arloesol cyflenwyr ac yn darparu cymorth ar gyfer ceisiadau posibl. Bydd y Cyflymydd hefyd yn ariannu prosiectau arloesol ar gyfer amddiffyn a diogelwch sy'n cefnogi twf economaidd a ffyniant yn y DU.

Mae DASA yn ariannu arloesedd drwy ddau brif ddull, mae Galwad Agored yn cynnig cyfle i gyflenwyr gyflwyno syniadau i randdeiliaid amddiffyn a diogelwch, ac mae Cystadlaethau â Thema yn cynnig cyfle i gyflenwyr gyflwyno cynigion sy'n ymwneud â meysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r llywodraeth. Mae rhagor o wybodaeth ar y dudalen Gwneud cais am gyllid.

### Menter SME Searchlight

Mae'r Labordy Technoleg a Gwyddoniaeth Amddiffyn wedi ymrwymo i weithio gydag amrywiaeth ehangach o BBaCh arloesol. Prosiect SME Searchlight, a sefydlwyd i ddenu BBaCh a chyflenwyr amddiffyn anhraddodiadol, yw'r sail i hyn.

### Y Bartneriaeth Twf Amddiffyn

Mae'r Bartneriaeth Twf Amddiffyn yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth y DU a chwmnïau blaenllaw o ddiwydiant amddiffyn y DU. Fe'i ffurfiwyd i gwrdd â'r heriau sydd ynghlwm â mwy o gystadleuaeth ryngwladol ar gyfer busnes amddiffyn, ac mae wedi creu amgylchedd cydweithredol i alluogi'r DU i gynnig yr atebion gorau posibl i gwsmeriaid amddiffyn, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion cwsmeriaid byd-eang, gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### Canolfan Atebion Amddiffyn y DU

Crëwyd Canolfan Atebion Amddiffyn y DU (UKDSC) fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y Bartneriaeth Twf Amddiffyn (DGP) ac mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan y llywodraeth a'r diwydiant. Mae UKDSC yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, BEIS a'r Adran Fasnach Ryngwladol – Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU (DIT DSA), diwydiant amddiffyn y DU a'r byd academaidd.

### Innovate UK

Mae Innovate UK yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, corff cyhoeddus anadrannol sy'n cael ei ariannu â chymorth grant gan Lywodraeth y DU. Mae'n sbarduno twf drwy weithio gyda chwmnïau i ddadrisgio, galluogi a chefnogi arloesedd. Mae'n cysylltu busnesau â'r partneriaid, y cwsmeriaid a'r buddsoddwyr sy'n gallu eu helpu i droi syniadau yn gynnyrch a gwasanaethau sy'n llwyddo'n fasnachol, yn ogystal â sicrhau twf busnes. Mae hefyd yn ariannu prosiectau cydweithredol ym maes busnes ac ymchwil i gyflymu arloesedd a hybu buddsoddiadau busnes ym maes Ymchwil a Datblygu. Mae cymorth ar gael i fusnesau yn yr holl sectorau economaidd, cadwyni gwerth a rhanbarthau'r DU.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall

### Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU

Mae Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU (UKDSE) yn rhan o'r Adran Fasnach Ryngwladol. Mae UKDSE yn darparu cyngor arbenigol ar allforio a chymorth ymarferol, gan weithio'n agos gyda'r diwydiant ac adrannau'r llywodraeth gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Gartref a'r Uned Rheoli Allforio ar y Cyd (ECJU).

Mae'n gyfrifol am y canlynol:

- helpu diwydiannau Amddiffyn a diogelwch y DU i allforio eu cynnyrch
- cynnal cysylltiadau gyda llywodraethau tramor i hyrwyddo cynnyrch Amddiffyn a diogelwch Prydain
- gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r diwydiant i sicrhau bod gan gynnyrch Amddiffyn a diogelwch botensial o ran allforio
- darparu cymorth arbenigol i gwmnïau Amddiffyn a diogelwch yn y DU i werthu eu nwyddau.

Mae Tim Cefnogi BBaCh Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU yn darparu ac yn cefnogi ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i helpu busnesau bach a chanolig y DU i ennill busnes amddiffyn a diogelwch dramor.







### Seiberddiogelwch

Mae gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), a lansiwyd ym mis Hydref 2016, bencadlys yn Llundain ac mae wedi dod ag arbenigedd o CESG (cangen sicrwydd gwybodaeth Pencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU), y Ganolfan Asesu Seiber, CERT-UK, a'r Ganolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol at ei gilydd. Mae'r NCSC yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer BBaCh, sefydliadau mwy, asiantaethau'r llywodraeth, y cyhoedd ac adrannau. Rydym hefyd yn cydweithio ag asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, amddiffyn, asiantaethau cudd-wybodaeth a diogelwch y DU a phartneriaid rhyngwladol.

Mae Cyber Essentials yn dangos i chi sut mae rhoi mesurau technegol ar waith i ddiogelu eich busnes rhag y bygythiadau mwyaf cyffredin o ran y rhyngrwyd. Gallwch hefyd wneud cais am fathodyn Cyber Essentials i ddangos i gwsmeriaid bod eich busnes yn cymryd y mater hwn o ddifrif. Mae'r Llywodraeth yn argymell Cyber Essentials ar gyfer pob sefydliad sy'n dibynnu ar y rhyngrwyd.

Mae Partneriaeth Seiberddiogelwch Amddiffyn (DCPP) yn brosiect cydweithredol rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn, Diwydiant ac adrannau eraill y Llywodraeth. Mae'r Model Seiberddiogelwch (CSM) yn ddull cymesur seiliedig ar risg o ddiogelu data'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y gadwyn gyflenwi. Bydd hefyd yn helpu i ddiogelu cwmnïau rhag dwyn data a meddalwedd wystlo. Ers 2017, mae wedi bod yn orfodol ar draws holl gontractau'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Gwerth Cymdeithasol

Mae Gwerth Cymdeithasol yn golygu ystyried effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ein prosiectau a'n rhaglenni. Mae'n cael effaith barhaol ar unigolion, cymunedau a'r amgylchedd. Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb a chyfle sylweddol i sicrhau'r buddion Gwerth Cymdeithasol mwyaf mewn modd effeithiol a chynhwysfawr drwy ei gweithgareddau masnachol.

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet Nodyn Polisi Caffael (PPN) 06/20 sy'n mynnu bod buddion gwerth cymdeithasol ychwanegol yn cael eu gwerthuso'n benodol yn holl brosesau caffael llywodraeth ganolog (lle mae'r gofynion yn berthnasol ac yn gymesur) yn hytrach na dim ond 'ystyried' fel oedd yn ofynnol yn flaenorol. Mae'r Model Gwerth Cymdeithasol a nodir yn y PPN yn mynnu bod o leiaf 10% o gyfanswm pwysoliad y gwerthusiad o'r tendr yn cael ei ddyrannu i feini prawf gwerth cymdeithasol penodol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan gov.uk website gan gynnwys dolenni at:

- Nodyn Polisi Caffael (PPN) 06/20
- Y Model Gwerth Cymdeithasol
- Canllaw ar ddefnyddio'r Model Gwerth Cymdeithasol
- Tabl cyfeirio cyflym y Model Gwerth Cymdeithasol

## Dolenni defnyddiol

- **Polisi Diogelwch**
  Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS 007: Diogelwch (publishing.service.gov.uk)

- **Achrediad**
  Prosesau achosion cydbwyso risg ac achredu TGCh y diwydiant amddiffyn CyDR - GOV.UK (www.gov.uk)
  Adnodd risg sicrwydd amddiffyn (DART) ac achredu diogelwch ICT y Weinyddiaeth Amddiffyn (publishing.service.gov.uk)

- **Cliriad Diogelwch Cyfleusterau (Rhestr X gynt)**
  Gofynion diogelwch ar gyfer contractwyr Rhestr X - GOV.UK (www.gov.uk)
  20180919_GovernmentSecurityRolesAndResponsibilities.pdf (publishing.service.gov.uk)
  Prif Gynghorydd Diogelwch Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn - GOV.UK (www.gov.uk) -
  Y drefn ar gyfer contractwyr yn y DU sydd heb Gliriad Diogelwch Cyfleusterau (FSC) (publishing.service.gov.uk)
  Parhad Busnes – Dolenni Defnyddiol (publishing.service.gov.uk)

- **Model Seiberddiogelwch**
  Model Seiberddiogelwch – Proses interim i gefnogi DEFCON 658 - GOV.UK (www.gov.uk)
  Canllaw i Brynwyr a Chyflenwyr yn y Diwydiang Seiber (publishing.service.gov.uk)
  Amod amddiffyn 658: seiber ('flow-down') - GOV.UK (www.gov.uk)
  Model Seiberddiogelwch: gofynion proffiliau risg seiber - GOV.UK (www.gov.uk)
  Def Stan 05-138 Argraffiad 3 (publishing.service.gov.uk)

- **Cliriadau Diogelwch**
  IPSA_Policy_May_2021.pdf (publishing.service.gov.uk)

## Atodiad - Cyflenwyr Mawr

| | |
|---|---|
| AIRBUS | https://www.airbus.com/en/be-an-airbus-supplier |
| babcock | https://www.babcockinternational.com/who-we-are/suppliers/becoming-a-supplier |
| BAE SYSTEMS | https://www.baesystems.com/en/home |
| BOEING | https://www.boeing.co.uk/boeing-defence-uk<br><br>https://www.boeingsuppliers.com/ |
| CAPITA | https://www.capita.com/ |
| DXC | https://dxc.com/us/en |
| GD | https://generaldynamics.uk.com/contact |
| KBR | https://kbrsupplier.com/Supplier/Supplier_Faq.aspx |
| leidos | www.leidos-supply.uk |
| LEONARDO | https://www.leonardo.com/en/suppliers/becoming-a-supplier |

| | |
|---|---|
| LOCKHEED MARTIN | https://www.lockheedmartin.com/en-gb/suppliers.html |
| MBDA | https://www.mbda-systems.com/suppliers/small-medium-sized-entreprise/ |
| QINETIQ | www.qinetiq.com/campaigns/sme-hub |
| Raytheon | https://www.raytheon.co.uk/who-we-are/our-partners |
| ROLLS ROYCE | https://www.rolls-royce.com/sustainability/customers-and-suppliers.aspx#/ |
| serco | https://www.serco.com/suppliers |
| THALES | www.thalesgroup.com/en/europe/united-kingdom/uk-suppliers |
| ULTRA | https://www.ultra.group/ |

Ministry of Defence

# Gwneud Busnes â'r Weinyddiaeth Amddiffyn

## Cyfleoedd ac Arloesi yn y Gadwyn Gyflenwi Amddiffyn

Mai 2023